

## Adroddiad Blynyddol gan Gyngorydd 2019/20

Hwn yw'r adroddiad gan y Cyngorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cyngorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cyngorydd:** Ieuan Williams

**Parti:** Y Grŵp Annibynnol

**Ward:** Lligwy

### 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

Rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:	Crynodeb o Bresenoldeb
Cyngor Sir Ynys Môn	<a href="#">Cofnod Presenoldeb</a>
Pwyllgor Adfywio	
Pwyllgor Gwaith	
Pwyllgor Penodiadau (Cadeirydd)	
Pwyllgor Ymchwilio	
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn	
Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys pob cyfarfod sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.  Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft.	

Rwy'n aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth – mae manylion am fy mhresenoldeb yn y cyfarfodydd hyn ar gael hefyd ar y ddolen uchod.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y gyrff allanol canlynol:

Corff allanol	Crynodeb o rôl a chyfraniad
- Cymdeithas Awdurdodau Lleol Cymru	Aelod o'r Cyngor
- Fforwm Iaith Môn	Rhan o fy mhortffolio
- Llywodraethwr / Ysgol Gynradd Goronwy Owen, Benllech	Cadeirydd a chynrychioli'r Cyngor Sir
- Llywodraethwr / Ysgol Uwchradd Syr Thomas Jones, Amlwch	Cynrychioli'r Cyngor Sir

## 2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Rwyf wedi rhoi cymorth i etholwyr ar nifer o faterion sy'n ymwneud a'r gwasanaethau mae'r Cyngor yn ei gynnal. Yn benodol dros y flwyddyn olaf –

- Rwyf wedi galw ceisiadau cynllunio i mewn i'r Pwyllgor Cynllunio pan mae angen herio manwl arnynt a siarad ar eu plaid neu eu gwrthwynebu.
- Ceisio helpu efo dehongliad y ddeddfwriaeth tai ynglŷn â'r premiwm ar ail dai, yn enwedig pan mae adeilad wedi ei adeiladu yn bwrpasol fel annedd gwyliau.
- Rhoi cymorth i unigolion sydd yn ddigartref ac eisiau ceisio am dŷ.
- Dilyn i fyny ar geisiadau am waith cynnal a chadw ar dai.
- Cofnodi a dilyn i fyny efo diffygion ffyrdd a llwybrau cyhoeddus.
- Gwirfoddoli efo danfon neges neu bresgripsiwn i drigolion dros y cyfnod firws Covid 19 diweddar.

Rwyf yn gadeirydd Bâd Achub Moelfre ac wedi bod yn cadeirio'r cyfarfod rheoli risg misol.

## 3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Oherwydd toriadau i gyllidebau Cyngorau Sir mae'r Cyngor wedi bod yn ceisio trosglwyddo asedau fel Cyfleusterau Cyhoeddus i Gynghorau Cymuned. Mae Cyngor Cymuned Llanfairmathafarneithaf wedi cymryd cyfrifoldeb am y cyfleusterau yn y Sgwâr ac ar y Traeth. Fel rhan o'r gwaith yma rydym wedi bod yn eu llnau a pharatoi manyleb o waith er mwyn gosod tendr i'w huwchraddio.

Digwyddiad arall lle bu peth gwaith trefnu arno oedd uno Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre. Mae'r ysgolion yma yn gweithredu fel un ysgol erbyn hyn efo un Pennaeth ac un Corff Llywodraethol.

## 4 - Dysgu a Datblygu

Mae gwybodaeth am y mentrau dysgu a datblygu rwyf wedi'u mynychu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gael yma (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn): [Hyfforddiant](#)

## 5 - Gweithgareddau a Materion Eraill

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma: [Cynghorydd Ieuan Williams](#)